# Astudiaeth Achos

## Lleoliad Gwaith - Dichonoldeb gosod pwmp gwres ffynhonnell dŵr ar Gampws Llandaf

### Pwyntiau Allweddol

- Mae’r prosiect Real World hwn yn caniatáu i fyfyrwyr wneud cais am un o bum tîm lleoliad gwaith yn gweithio gyda’r Rheolwr Ymgysylltu Cynaliadwyedd a'r Peiriannydd Ynni a'r Amgylchedd.
- Mae materion cynaliadwyedd yn nglwm a chyfyngiadau ac anawsterau y byddai'n rhaid i'r myfyrwyr eu goresgyn, gan ddangos i'r myfyrwyr y cyd-destun y mae'n rhaid i gynaliadwyedd ymarfer ynddo.
- Archwiliwyd yr angen am graffu, yn ogystal ag ystyriaethau economaidd ac amgylcheddol, wrth ddarparu cyngor cynaliadwyedd cyffredinol yng nghyd-destun safleoedd Met Caerdydd.

### Pwy?

Lleoliad gwaith Real World, lefel 5, ar gyfer myfyrwyr BA Busnes a Rheoli. Dyluniwyd y prosiectau ar gyfer myfyrwyr ar y llwybrau Cynaliadwyedd, Marchnata a Chyllid, gyda'r cyfle i gynnal ymchwil, dadansoddi'r materion a nodwyd a darparu atebion realistig gyda'r potensial i ddylanwadu'n uniongyrchol ar fentrau cynaliadwyedd ar y Campws.

### Pam?

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd y rôl sydd ganddi i'w chwarae wrth reoli'r amgylchedd yn ei hystâd ac wrth hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd ar draws yr holl weithgareddau, gan gynnwys addysgu ac ymchwil. Mae'r Brifysgol yn rheoli ei risgiau amgylcheddol mewn modd cynaliadwy trwy gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a mabwysiadu arfer gorau lle bo hynny'n briodol. Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydnabod diffiniad eang o gynaliadwyedd, yn seiliedig ar gymryd rhan mewn datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol, heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae'r Brifysgol yn edrych yn barhaus ar sut y gall wella cynaliadwyedd a lleihau ei hôl troed carbon. Rhoddodd y lleoliad gyfle i grwpiau o fyfyrwyr weithio ar y cyd (yn rhithiol / ar-lein) ar ystod o brosiectau o fewn y maes cynaliadwyedd mewn perthynas â'r amgylchedd yr oeddent yn gyfarwydd ag ef.

### Sut?

Ar ôl gwneud cais am swydd yn eu pwnc o ddewis, cwblhaodd saith myfyriwr ymchwil ar weithrediadau mewnol ac ystyried cymhwyso arloesi a gwelliannau a allai gyfrannu at ddyfodol carbon niwtral i Met Caerdydd mewn perthynas â dichonoldeb gosod pwmp gwres ffynhonnell ddŵr ar Gampws Llandaf.  Oherwydd Covid-19 cwblhawyd y lleoliad gwaith wyth wythnos ar Microsoft Teams, gyda chyfarfodydd wythnosol / rheolaidd i ddangos syniadau a chynnydd ar y tasgau a ddyrannwyd. Elfen olaf y lleoliad oedd cyflwyno cyflwyniad llafar ac adroddiad byr ar ganfyddiadau'r grŵp.

### Pwyntiau Allweddol

Anogodd addysgeg ddilys, yn seiliedig ar brosiectau ac yn canolbwyntio ar y dysgwr ymgysylltiad uniongyrchol gan fyfyrwyr i ystod o faterion cynaliadwyedd byd go iawn sy’n wynebu Met Caerdydd a’i myfyrwyr.

Bu myfyrwyr yn gweithio gyda chleientiaid go iawn a grwpiau targedu defnyddwyr i greu datrysiadau go iawn i faterion go iawn sy’n cael eu rhoi ar waith gan y sefydliad.

### Canlyniadau

Anogodd y Prosiect Real World fyfyrwyr i ystyried y rôl y gallant hwy a’u disgyblaeth ei chwarae wrth annog a dylanwadu ar newid ymddygiad ystyrlon sy’n canolbwyntio ar gynaliadwyedd. Trwy ddatblygu a hyrwyddo datrysiadau i broblemau dilys yn y gyd go iawn a oedd â’r potensial i’w gweithredu ac felly’n cael effaith barhaol, roedd yn amlwg bod mwyafrif llethol o’r myfyrwyr wedi buddsoddi’n emosiynol yn allbynnau eu prosiect ac yn unol â hynny wedi datblygu ymdeimlad cryf o berchnogaeth a gwerth ynddo eu datrysiadau arfaethedig – tystiolaeth o ddysgu trwy brofiad effeithiol.

*Chwefror 2021 - Mai 2021*